# Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

**2021 dsc 2**

*Cyffredinol*

## 16 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" ("*primary legislation*") yw—

(a) Mesur a basiwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

(b) Deddf a basiwyd o dan Ran 4 o'r Ddeddf honno;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;

mae i "etholiad 2021" ("*the 2021 election*") yr ystyr a roddir gan adran 1;

ystyr "Gorchymyn 2007" ("*the 2007 Order*") yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236);

ystyr "y Llywydd" yw Llywydd Senedd Cymru.

## 17 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon neu a wneir oddi tani, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu a wneir oddi tani, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi neu a wneir oddi tani, cânt drwy reoliadau a wneir drwy offeryn statudol wneud—

(a) darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) gwneud darpariaeth ôl-weithredol mewn perthynas ag is-etholiad awdurdod lleol o fewn yr ystyr a roddir gan adran 11(2), gan gynnwys darpariaeth sy'n cael effaith mewn perthynas ag adegau cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym;

(b) diwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon);

(c) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan is-adran (1) sy'n diwygio, yn addasu neu'n diddymu darpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol.

(4) Rhaid i offeryn statudol y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru ac mae'n peidio â chael effaith pan fo 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y'i gwneir yn dod i ben, oni bai bod Senedd Cymru yn ei gymeradwyo drwy benderfyniad cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben.

(5) Ond—

(a) os yw Senedd Cymru yn pleidleisio ar gynnig ar gyfer penderfyniad i gymeradwyo offeryn statudol a osodir o dan is-adran (4) cyn i'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn yr is-adran honno ddod i ben, a

(b) os na chaiff y cynnig i basio,

mae'r offeryn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y diwrnod y mae'r bleidlais yn digwydd.

(6) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o 28 o ddiwrnodau at ddibenion is-adran (4), rhaid diystyru unrhyw gyfnod pan fo Senedd Cymru—

(a) wedi ei diddymu, neu

(b) ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

(7) Nid yw is-adrannau (4) a (5)—

(a) yn effeithio ar unrhyw beth a wneir drwy ddibynnu ar y rheoliadau cyn iddynt beidio â chael effaith, neu

(b) yn atal gwneud rheoliadau newydd.

(8) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan is-adran (1) ac nad yw is-adran (4) yn gymwys iddo yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

## 18 Dod i rym

Daw'r Ddeddf hon i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y cydsyniad Brenhinol.

## 19 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021.